# Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

**2018 dccc 2**

## RHAN 2

ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

## PENNOD 2

CYNLLUNIAU DATBLYGU UNIGOL

*Adolygu cynlluniau*

### 24 Adolygu a diwygio cynlluniau datblygu unigol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal

(1) Rhaid i awdurdod lleol y mae'n ofynnol iddo gynnal cynllun datblygu unigol ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal adolygu'r cynllun cyn diwedd pob cyfnod adolygu.

(2) Mae'r cyfnod adolygu cyntaf yn gyfnod o 12 mis sy'n dechrau â'r dyddiad y rhoddir copi o'r cynllun gyntaf o dan adran 22.

(3) Mae pob cyfnod adolygu dilynol yn gyfnod o 12 mis sy'n dechrau—

(a) â'r dyddiad yn ystod y cyfnod adolygu blaenorol y rhoddir copi o gynllun diwygiedig gyntaf o dan is-adran (10) mewn perthynas â'r cyfnod adolygu hwnnw, neu

(b) pan na fo'r cynllun wedi ei ddiwygio yn y cyfnod adolygu blaenorol, â'r dyddiad yn ystod y cyfnod hwnnw y rhoddir hysbysiad o benderfyniad gyntaf o dan is-adran (9) mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw.

(4) Ond pan na fo'r naill ddogfen na'r llall o'r dogfennau y cyfeirir atynt yn is-adran (3)(a) a (b) wedi ei rhoi yn ystod y cyfnod adolygu blaenorol, mae'r cyfnod adolygu dilynol yn gyfnod o 12 mis sy'n dechrau â'r diwrnod cyntaf ar ôl diwedd y cyfnod adolygu blaenorol hwnnw.

(5) Mae'r ddyletswydd yn is-adran (1) i adolygu cynllun cyn diwedd cyfnod adolygu yn cael ei thrin fel pe bai wedi ei chyflawni os yw Tribiwnlys Addysg Cymru, cyn diwedd y cyfnod hwnnw, yn gorchymyn i'r awdurdod lleol ddiwygio'r cynllun.

(6) Rhaid i awdurdod lleol y mae'n ofynnol iddo gynnal cynllun datblygu unigol ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal adolygu'r cynllun os—

(a) yw'r cynllun yn cynnwys darpariaeth ddysgu ychwanegol y mae'n ofynnol i gorff GIG ei sicrhau o dan adran 20, a

(b) yw'r corff GIG yn gofyn i'r awdurdod lleol adolygu'r cynllun.

(7) Rhaid i awdurdod lleol y mae'n ofynnol iddo gynnal cynllun datblygu unigol ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal adolygu'r cynllun os gofynnir iddo wneud hynny gan y plentyn sy'n derbyn gofal neu gan riant y plentyn sy'n derbyn gofal, oni bai bod yr awdurdod yn ystyried bod adolygiad yn ddiangen.

(8) Caiff awdurdod lleol—

(a) adolygu cynllun datblygu unigol ar unrhyw adeg, a

(b) diwygio cynllun yn dilyn adolygiad.

(9) Os yw awdurdod lleol yn penderfynu yn dilyn adolygiad (sy'n ofynnol neu sydd wedi ei awdurdodi gan neu o dan y Rhan hon neu gan neu o dan adran 83 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (dccc 4)) na ddylai'r cynllun gael ei ddiwygio rhaid iddo hysbysu'r plentyn, rhiant y plentyn a swyddog adolygu annibynnol y plentyn am—

(a) y penderfyniad, a

(b) y rhesymau dros y penderfyniad.

(10) Os yw awdurdod lleol yn diwygio cynllun datblygu unigol plentyn sy'n derbyn gofal (fel sy'n ofynnol neu sydd wedi ei awdurdodi gan neu o dan y Rhan hon neu gan neu o dan adran 83 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (dccc 4)), rhaid iddo roi copi o'r cynllun datblygu unigol diwygiedig i—

(a) y plentyn sy'n derbyn gofal,

(b) rhiant y plentyn sy'n derbyn gofal, ac

(c) swyddog adolygu annibynnol y plentyn sy'n derbyn gofal.